22130228

International Baccalaureate®
Baccalauréat International
Bachillerato Internacional

**WELSH A: LITERATURE – STANDARD LEVEL – PAPER 2**
**GALLOIS A : LITTÉRATURE – NIVEAU MOYEN – ÉPREUVE 2**
**GALÉS A: LITERATURA – NIVEL MEDIO – PRUEBA 2**

Monday 13 May 2013 (morning)
Lundi 13 mai 2013 (matin)
Lunes 13 de mayo de 2013 (mañana)

1 hour 30 minutes / 1 heure 30 minutes / 1 hora 30 minutos

---

INSTRUCTIONS TO CANDIDATES

- Do not open this examination paper until instructed to do so.
- Answer one essay question only. You must base your answer on at least two of the Part 3 works you have studied and compare and contrast these works in response to the question. Answers which are not based on a discussion of at least two Part 3 works will not score high marks.
- You are not permitted to bring copies of the works you have studied into the examination room.
- The maximum mark for this examination paper is *[25 marks]*.

INSTRUCTIONS DESTINÉES AUX CANDIDATS

- N'ouvrez pas cette épreuve avant d'y être autorisé(e).
- Traitez un seul sujet de composition. En basant votre réponse sur au moins deux des œuvres de la troisième partie que vous avez étudiées, vous devez comparer et opposer ces œuvres dans le cadre du sujet. Les réponses qui ne sont pas basées sur au moins deux des œuvres de la troisième partie n'obtiendront pas une note élevée.
- Vous n'êtes pas autorisé(e) à apporter des exemplaires des œuvres que vous avez étudiées dans la salle d'examen.
- Le nombre maximum de points pour cette épreuve d'examen est *[25 points]*.

INSTRUCCIONES PARA LOS ALUMNOS

- No abra esta prueba hasta que se lo autoricen.
- Conteste una sola pregunta de redacción. Base su respuesta en al menos dos de las obras estudiadas de la Parte 3, comparándolas y contrastándolas en relación con la pregunta. Las respuestas que no se basen en al menos dos obras de la Parte 3 no recibirán una puntuación alta.
- No está permitido traer copias de las obras estudiadas a la sala de examen.
- La puntuación máxima para esta prueba de examen es *[25 puntos]*.


© International Baccalaureate Organization 2013

https://xtremepape.rs/

*Ysgrifennwch draethawd ar* ***un*** *o'r cwestiynau hyn yn unig. Rhaid ichi seilio eich ateb ar* ***o leiaf ddau*** *o weithiau rhan 3 a astudiwyd gennych a* ***chymharwch a chyferbyniwch*** *y gweithiau hynny wrth ateb y cwestiwn. Ni roddir marciau uchel am atebion* ***nad*** *ydynt wedi eu seilio ar o leiaf ddau o weithiau rhan 3.*

**Barddoniaeth**

**1.** Trafodwch y defnydd a wneir gan y beirdd o ddeuoliaeth (e.e. da/drwg; byw/marwolaeth; corff/ysbryd; dewrder/llyfrdra; dyletswydd/dyheu, ac yn y blaen) i greu tensiwn yn o leiaf ddau waith gan wahanol feirdd a astudioch.

**2.** Dadansoddwch sut y mae'r defnydd o ddelweddau yn adlewyrchu'r themâu yn o leiaf ddau waith gan feirdd gwahanol a astudiwyd gennych.

**3.** Cymharwch a dadansoddwch y gwahanol dechnegau a ddefnyddir gan o leiaf ddau fardd gwahanol i fynegi eu teimladau personol a'u hargyhoeddiadau yn eu gweithiau.

**Drama**

**4.** Gan gyfeirio at o leiaf ddau waith a astudiwyd gennych, trafodwch ddefnydd y dramodwyr o ddeialog er mwyn denu sylw a difyrru eu cynulleidfa.

**5.** Nid geiriau'n unig yw drama: mae'n fwy na hynny, gorau oll os yw'n cynnwys dawns, symudiadau, cerddoriaeth, delweddau gweledol er mwyn creu uned artistig sy'n wead o'r deallol a'r emosiynol. Pwyswch a mesur unrhyw ddwy ddrama gan ddau ddramodydd gwahanol a astudioch yng ngoleuni'r ddamcaniaeth uchod.

**6.** "Gwnaiff dramodwyr droi profiadau pob dydd yn ddeunydd drama." Olrheiniwch y dulliau a ddefnyddir gan o leiaf ddau ddramodydd i drawsffurfio profiadau cyffredin bywyd yn theatr effeithiol.



https://xtremepape.rs/

**Nofel**

**7.** Archwiliwch ddefnydd y nofelwyr a astudioch o’r tirlun a’i effaith ar y plot ac ar/neu ar y cymeriadau. Dylid cyfeirio at o leiaf ddwy nofel gan wahanol awduron.

**8.** Sut y mae’r gwrthdrawiad rhwng ymddangosiad a realiti yn effeithio ar rai o’r prif gymeriadau mewn o leiaf ddwy neu dair nofel a ddarllenwyd gennych?

**9.** Mae’r nofelau yn aml yn adlewyrchu’r gwahanol werthoedd sydd gan ddynion a merched. Dewiswch ddwy nofel gan wahanol awduron a dangoswch sut y maent wedi defnyddio’r gwahaniaeth hwn at bwrpas eu storïau.

**Storïau Byrion**

**10.** I ba raddau y mae llwyddiant stori fer yn dibynnu ar ei diweddglo? Trafodwch a chymharwch ddiweddglo rhai storïau a ddarllenwyd gennych gan bwyso a mesur sut ac i ba raddau y gwnaethant eich bodloni. Dylid cyfeirio at o leiaf ddau waith gwahanol.

**11.** “Rhaid i ddarllenydd stori fer geisio lloffa cymaint o’r hyn nad ysgrifennwyd â’r hyn a ysgrifennwyd.” Gan gyfeirio at o leiaf ddau waith a astudioch, trafodwch i ba raddau y mae’r hyn a adawyd allan yn cyfrannu at ein dealltwriaeth o’r gweithiau.

**12.** “Tasg storïwr da yw ffitio’i arddull i’r math o stori y mae yn ei hysgrifennu.” Sut y llwyddodd o leiaf ddau storïwr yr astudioch eu gwaith i addasu eu harddull i adlewyrchu natur a chymeriadau eu storïau?



https://xtremepape.rs/

**Hunangofiant a Chofiant**

**13.** I ba raddau y mae'r bobl a bortreadir mewn o leiaf ddau gofiant/hunangofiant a ddarllenwyd gennych yn gyfrifol am eu tynged eu hunain? Trafodwch hyn gan roddi barn ar y modd yr ymdrinnir â phobl wahanol mewn sefyllfaoedd tyngedfennol ac arwyddocaol yn eu bywyd?

**14.** Bydd rhai hunangofiannwyr a chofiannwyr yn rhoddi sylw i'r croestynnu mewnol a theuluol sydd yn rhan bwysig o fywyd pawb. Trafodwch i ba raddau a'r modd y portreadir y croestynnu hwn mewn o leiaf ddau waith a ddarllenoch.

**15.** "Nid beth a ddywedir sy'n bwysig mewn cofiannau a hunangofiannau ond y modd y'i dywedir i ddal a chynnal diddordeb y darllenydd ym mywyd unigolyn." Pa gonfensiynau llenyddol a ddefnyddiwyd gan o leiaf ddau awdur i gynnal eich diddordeb yn eu gweithiau?



https://xtremepape.rs/